**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

**Ionawr 16eg 2024**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Menna Baines, Elfed Wyn ap Elwyn, Elwyn Jones, Edgar Wyn Owen, Arwyn Herald Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Rowlands, Angela Russell, Ioan Thomas a Rob Triggs.

**Aelodau Lleyg**: Carys Edwards (Cadeirydd), Sharon Warnes, Eifion Jones a Rhys Parry

**Swyddogion:** Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), Gwyn Llŷn Parry (Cyfrifydd Grŵp - Cyfrifeg ac Ariannol), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Eleri Jones (Uwch Swyddog Gweithredol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Y Cynghorydd Huw Wyn Jones (Aelod Cabinet Cyllid)

| | |
|---|---|
| Eitem 6: | Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Lois Owens (Uwch Swyddog Gweithredol) |
| Eitem 9: | Alan Hughes (Archwilio Cymru) a Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) |

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Dafydd Meurig

   Mewn ymateb i sylw bod dwy sedd wag gan Aelodau Lleyg ar y Pwyllgor, nodwyd bod y gwaith o hysbysebu'r seddi yn mynd yn ei flaen gyda hysbyseb barhaus ar wefan y Cyngor. Nodwyd mai anodd yw cael pobl i ddangos diddordeb a bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r Swyddog Monitro a'r Gwasanaeth Democratiaeth i geisio syniadau am ysgogiad diddordeb. Derbyniwyd bod y sefyllfa yn un pryderus ac yn creu diffyg balans yn aelodaeth y Pwyllgor.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **COFNODION**

   Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 28 Tachwedd 2024 fel rhai cywir.

## 5. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod modd i'r Aelodau gael sicrwydd bod eu penderfyniadau yn cael sylw. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y penderfyniad a wnaed gyda bwriad o ddileu'r eitem / penderfyniad pan fydd y weithred wedi cwblhau.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn cynnwys yr adroddiad**
- **Archwiliad Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth - cais am adroddiad yn nodi Trefniadau'r Cyngor i ymdrin â materion Rhyddid Gwybodaeth**

Nodyn:
Gwastraff ac Ailgylchu – adolygiad WRAP i'w rannu gyda'r Aelodau

## 6. CYLLIDEB REFENIW 2024 / 25 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2024

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Cyllid yn manylu ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2024/25, a'r rhagolygon tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor graffu'r wybodaeth a chynnig sylwadau cyn cyflwyno am gymeradwyaeth y Cabinet 21 Ionawr 2025.

Cyfeiriwyd ar dalfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau gan adrodd, yn dilyn adolygiad ddiwedd Tachwedd ar orwariant bod 83% ohono yn y maes gofal oedolion a phlant, ond y rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd pump o'r adrannau yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn, gyda gorwariant sylweddol ar gyfer yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Adran Amgylchedd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Gwaith sydd wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i gael gwell dealltwriaeth o orwariant gan yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant - beth yw amserlen y gwaith a pryd fydd y wybodaeth yn cael ei rannu?
- Gwaith sydd wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i egluro manylder y darlun ym maes gofal plant - angen cyflwyno'r wybodaeth i'r Pwyllgor
- Bod mwy o alw am wasanaethau - a'i buddsoddiad annigonol sydd yma ynteu orwariant? Bod Cynghorau ar draws Cymru yn yr un sefyllfa. Sut mae Gwynedd yn cymharu gyda Chynghorau eraill?
- Er yn ffodus o gronfeydd wrth gefn y Cyngor, nid yw hyn yn gallu cynnal y sefyllfa - cyfrifoldeb ar Benaethiaid i 'fyw o fewn' y gyllideb
- Gwendidau gweinyddiaeth i ofal cartref – a yw'r sefyllfa wedi gwella?
- Cyfeiriad at seibiant gwario canol blwyddyn - a yw hyn yn annheg os byddai rhywun angen gwasanaeth?
- A oes cynlluniau tymor hir i feysydd incwm y Cyngor yn hytrach na thymor byr / canolig? A yw'r trothwy incwm yn rhy uchel ac o ganlyniad yn amlygu bod y gwasanaeth yn aneffeithiol ar bapur? Faint yn llai e.e., yw incwm parcio yng Ngwynedd?
- Prinder gweithwyr - a yw cytundebau 16 awr yn cronni'r sefyllfa? Wrth ystyried amodau gwaith gofalwyr yn gyffredinol a oes ystyriaeth i ail gyflwyno tâl chwyddedig?
- Ffigyrau sensws Gwynedd – nifer marwolaethau yn uchel – beth yw effaith hyn? – cais am fanylion pres y pen ac incwm uwch y gwasanaeth profedigaeth marwolaethau

- A oes mewnbwn i leoliadau all sirol i blant gan y Bwrdd Iechyd?

Er bod gwaith eisoes wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i edrych ar sefyllfa ariannol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, gwahoddwyd Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) ac Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) i'r cyfarfod i roi cyd-destun ac eglurhad llawnach ar benawdau cyllideb yr Adran gan fanylu ar sefyllfa gyllidol heriol yr Adran.

Wrth ymateb i sylw ynglŷn â mewnbwn y gwasanaeth iechyd i leoliadau allsirol, nodwyd nad mater iechyd oedd yma, ond diffyg darpariaeth cartrefi / llety i blant mewn angen. Eglurwyd nad oes darpariaeth ddigonol yng Ngwynedd ac felly bod rhaid chwilio am lety diogel tu allan i'r Sir. Ategwyd bod y galw am leoliadau preswyl yn genedlaethol yn uchel ac nad oedd y cyflenwad presennol yn cyfarch y galw - y diffyg hefyd yn arwain at sefyllfa o orfod defnyddio eiddo heb gofrestriad (megis carafán) sy'n arwain at brynu gofalwyr (asiantaethol) i warchod y plentyn / plant, sydd o ganlyniad yn uchafu'r costau.

Adroddwyd bod datblygu darpariaeth breswyl drwy Gynllun Cartrefi Grŵp Bychain yn flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2023-28. Esboniwyd bod gwariant y Cyngor ar leoliadau preswyl all-sirol yn cynyddu a hynny oherwydd chwe lleoliad eithriadol eleni. Byddai datblygu'r Cynllun Cartrefi Grŵp Bychain yn gyfle i arbed costau, wrth sicrhau bod plant mewn lleoliadau preswyl yn cael aros yn lleol, bod yn rhan o'r gymuned a derbyn addysg o fewn y Sir.

Yng nghyd-destun Cartrefi Nyrsio, eglurwyd gyda dyfodiad datblygiad Penyberth bydd y Cyngor yn gallu darparu gofal nyrsio o fewn y Sir - gwasanaeth sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddarparu gan ddarparwyr gofal annibynnol neu drydydd sector yn unig. Ategwyd bod y darparwyr hyn yn cynnig gofal preifat sydd a'u pryd ar wneud elw ac felly bod angen ceisio cytundeb costau ymlaen llaw. Bydd Penyberth yn fodd o ailfodelu'r sector gofal yn y Sir.

Tynnwyd sylw at yr amcan gorwariant ar gyfer 2024/25 gan sicrhau nad Gwynedd yn unig oedd yn y sefyllfa yma - y darlun yn un cyffredin ar draws y Deyrnas Unedig. Ategwyd bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn un o brif ddiwydiannau'r Sir yn cyflogi nifer ac yn buddsoddi yn sylweddol yn y gwasanaethau. Cyfeiriwyd at ddefnydd 'Care Cubed' sydd yn gwmni di-elw sy'n cynorthwyo'r gwasanaeth i ddeall ffioedd a chael y gwerth gorau am arian - ei ddefnydd eisoes wedi arwain at danwariant mewn rhai meysydd. Yn ôl Cymdeithas Gofal Cartref, cost safonol ddisgwyliedig gofal cartref yw £34 yr awr gyda Chyngor Gwynedd yn talu ychydig llai na hyn, ond y galw am ofal yn fawr o fewn y Sir. Nodwyd bod gwaith parhaus yn cael ei wneud i sicrhau balans gan gynnig cefnogaeth i drigolion gynnal eu hunain a byw'n annibynnol.

Er y manylion yn yr adroddiad, derbyniwyd nad oedd y wybodaeth yn amlygu'r gwariant yn ddigonol ac felly cytunwyd cydweithio gyda'r Adran Cyllid i geisio darlun cliriach.

Yn ychwanegol, tynnwyd sylw at y materion canlynol:

- Anableddau Dysgu - costau yn amrywio gyda chyflwyniad o achosion newydd
- Bod costau staff asiantaethau yn sylweddol, ond y sefyllfa yn gwella
- Bod recriwtio staff achlysurol yn heriol - gorddibyniaeth ar nifer cyfyngedig. Pryder am salwch staff - gwaith yn cael ei wneud i gefnogi llesiant staff.
- Nifer o ddatblygiadau ac ymdrech wedi ei wneud i 'werthu' pecyn gyrfa ym maes Gofal. Gyda lansiad Academi Gofal, y gobaith yw denu mwy o weithwyr. Gwenno Williams (Swyddog Marchnata a Datblygu Gyrfaoedd Gofal) wedi cael ei chydnabod ar lefel genedlaethol am ei chyfraniad i'r gwaith yma.
- Arbedion – y sefyllfa yn cael ei hadolygu yn barhaus – cynlluniau arbedion newydd gyda symiau sylweddol wedi eu cyflwyno
- Darpariaeth Dyledion Drwg yr Adran yn sylweddol - y gyllideb yn annigonol

- Croesawu datblygiad Penyberth - y ddarpariaeth yn gymorth i'r sefyllfa gofal yn y Sir yn y tymor hir

Diolchwyd am yr eglurhad manwl i heriau sylweddol yr Adran

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â Gofal Iechyd Parhaus a'r ffîn annelwig rhwng cyfrifoldebau'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bwrdd Iechyd, nodwyd bod y sefyllfa yn un cymhleth. Wedi ystyried holl anghenion unigolyn (a chwblhau'r Daflen Cefnogi Penderfyniad), bydd gofyn penderfynu sut i fynd i'r afael â'r anghenion iechyd ynteu /a'r anghenion gofal. Nodwyd, bod penderfyniadau yn cael eu gwyrdroi yn rheolaidd sy'n ychwanegu at heriau'r gwasanaeth - sefyllfa wedi codi lle bod angen ystyried cyflogi person i ymdrin â'r gwaith yma yn unig.

Mewn ymateb i sylw bod llithriad i bedwar cynllun gwerth £1,2 i gyllideb 2024/25 ac os oedd bwriad cyflawni'r arbedion hyn, nodwyd na fyddai'r Adran yn cyflwyno arbedion oni bai y byddant yn hyderus o'u cyflawni. Ategwyd bod costau yn cynyddu ac mai anodd yw cyflawni o fewn yr amserlen - yn realistig nid yw'n hawdd cyflawni o fewn cyfnod byr o ystyried y gwaith sydd angen ei wneud i newid gwasanaeth e.e., amserlen ymgynghori gyhoeddus. Y flaenoriaeth yw cynnal a rhoi gwasanaeth i drigolion y Sir, ond bod y Gwasanaeth hefyd yn methu rhoi gwasanaeth i lawer - nid oes cyllideb ar gyfer methu darparu ac angen ystyried hyn i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau**
- **Cytuno gyda'r argymhellion i'r Cabinet:**
- **Llongyfarch Gwenno Williams (Swyddog Marchnata a Datblygu Gyrfaoedd Gofal) am ei chyfraniad i'r gwaith recriwtio staff i faes gofal ac am ennill gwobr Cyfraniad Personol Eithriadol yng ngwobrau Gyrfa Cymru.**

Nodyn:

- Gwaith sydd wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i gael gwell dealltwriaeth o orwariant gan yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant - cais i'r Cabinet herio beth yw amserlen y gwaith yma – angen sicrwydd bod y gwaith yma yn ei le i osod cyllideb
- Gwaith sydd wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i egluro manylder y darlun yng ngofal Plant, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a rhaglen glir i ymateb – angen cyflwyno dadansoddiad manylach o'r gwaith i'r Pwyllgor
- Cais am wybodaeth ar sut mae rhagolygon ariannol Gwynedd yn cymharu gyda Chynghorau eraill
- Gwybodaeth am incwm uwch gan y gwasanaeth profedigaeth marwolaethau, diffyg incwm parcio a manylion 'pres y pen' i'w rannu'n uniongyrchol gyda'r Cyng. Angela Russell

## 7. RHAGLEN GYFALAF 2024 / 25 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2024

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid. Prif ddiben yr adroddiad oedd cyflwyno'r rhaglen gyfalaf diwygiedig (sefyllfa diwedd Tachwedd 2024) a gofyn i'r Pwyllgor ystyried y ffynonellau ariannu perthnasol a chraffu argymhellion i'r Cabinet (21-01-25).

Cyfeiriwyd at ddadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £175.1 miliwn am y 3 blynedd 2024/25 – 2026/27 ynghyd a'r ffynonellau sydd ar gael i ariannu'r cynnydd net sydd oddeutu £5.4 miliwn ers y gyllideb wreiddiol.

Ategodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol,

- Bod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi £102.7miliwn yn 2024/25 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £51.1miliwn (50%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol.
- Bod £19.7 miliwn ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2024/25 i 2025/26 a 2026/27. Y prif gynlluniau sydd wedi llithro ers y gyllideb wreiddiol yn cynnwys £9.7 miliwn Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro, £7.9 miliwn Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill), £5.8 miliwn Adnewyddu Cerbydau ac Offer, £2.7 miliwn Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol, £2.5 miliwn Cynlluniau Rheoli Carbon a Phaneli Solar a £2.4 miliwn Cynllun Hwb Iechyd a Gofal Penygroes

Tynnwyd sylw'r Aelodau at y rhestr grantiau ychwanegol y llwyddodd y Cyngor eu denu ers yr adolygiad diwethaf oedd yn cynnwys £1,626 mil – Addasiad Grant Cronfa Ffyniant Bro, £725 mil – Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at Cynllun Prom y Gogledd, Abermaw, £710 mil – Grant Cyfalaf Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru a £406 mil – Grant gan Sefydliad Pêl Droed Cymru tuag at ddau gynllun Caeau Pêl Droed

Cyfeiriwyd at y Dangosyddion Darbodus Cyfalaf y Cyngor gan nodi bod gofyn newydd ar y Cyngor i adrodd ar y Cod Darbodus gan GIGFA. Nodwyd bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r polisi ar fenthyca at ddibenion cyfalaf.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag ail broffilio a chostau cynyddol debygol i brosiectau ac os yw'r Cyngor yn ail ystyried y prosiect ynteu holi am gynnydd yn y grant, nodwyd mai swm penodol yw grant fel arfer ac felly bydd y costau yn cael eu hystyried wrth ail broffilio.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor**

## 8. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion, ystyried argymhellion i'r Cabinet (22-01-2025) a sylwebu fel bo' angen. Eglurwyd, bod £42 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu, sef 90% o'r £46.6 miliwn gofynnol dros y cyfnod a gwerthfawrogwyd y gwaith gan staff y Cyngor i wireddu hyn. Nododd, er mwyn cau'r bwlch ariannol, roedd rhaid gweithredu gwerth £5.6 miliwn o arbedion yn ystod 2024/25 oedd yn gyfuniad o £3.6 miliwn oedd wedi ei gymeradwyo yn Chwefror 2023 ac arbedion newydd gwerth £2 filiwn a gymeradwywyd yn Chwefror 2024.

Cyfeiriwyd at grynhoad cyrhaeddiad arbedion pob Adran yn seiliedig ar adolygiad Tachwedd 2024 (cyfanswm o £12miliwn) a chyhoeddwyd bod dros £8 miliwn (67%) o'r cynlluniau hyn eisoes wedi eu gwiredd gyda 6% ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol. Ategwyd bod risgiau i wireddu'r arbedion yn amlwg mewn rhai meysydd gyda'r prif rai yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Amgylchedd.

Adroddwyd, yn dilyn adolygiad diweddar gan y Prif Weithredwr o gynlluniau arbedion yn y maes gwastraff gan yr Adran Amgylchedd, daethpwyd i'r canlyniad fod angen uno tri cynllun arbedion yn y maes gwastraff masnachol, dileu un cynllun casglu clytiau gwerth £147 mil a bod cynlluniau amgen yn cael eu cynnig ar gyfer gwerth £300k o gynllun gwastraff £400k. Bydd hyn yn cael ei argymell i'r Cabinet i'w gymeradwyo.

Ategodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol, ym Mhwyllgor mis Hydref, gwnaed cais i lunio tabl oedd yn gwahaniaethu rhwng y sefyllfa hanesyddol a'r sefyllfa ddiweddaraf fel bod bodd adnabod risgiau i'r sefyllfa gyfredol. Nodwyd bod y cais wedi ei weithredu gyda gwybodaeth am gynlluniau hanesyddol sydd wedi eu gwireddu mewn un tabl a thabl arall yn rhoi sylw i'r arbedion hanesyddol sydd eto i'w gwireddu

Tynnwyd sylw at gynlluniau arbedion newydd fesul Adran ar gyfer 2025/26 ymlaen – gan nodi bod y cynlluniau hyn eisoes dan ystyriaeth y Cyngor yn destun adroddiad pellach i'r Pwyllgor.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:
- Yn croesawu bod y cynnig o gyflwyno gwybodaeth am y arbedion hanesyddol wedi ei weithredu – trosolwg o'r sefyllfa yn gliriach
- Croesawu bod 67% o gynlluniau arbedion effeithlonrwydd 2024/25 wedi eu gwireddu
- Bod yr arbedion 'hawsaf' wedi eu gwireddu – yr arbedion sydd angen eu gwireddu yn y dyfodol agos yn anodd ac felly angen sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i osod amserlen briodol ar gyfer gweithredu a rhoi cyfle i adrannau gynllunio'n well i'r tymor hir
- Diolch i bawb a fu'n gysylltiedig ar adroddiad – gwaith heriol iawn wedi ei gyflwyno mewn modd dealladwy

**PENDERFYNWYD:**
- **Derbyn y wybodaeth gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau cyffredinol sydd yn deillio o lithriadau yn yr arbedion**
- **Cefnogi fod y Cabinet yn cymeradwyo dileu un cynllun arbedion gwerth £146,910 perthnasol i 2025/26 yn y maes gwastraff yn yr Adran Amgylchedd, gan ddefnyddio'r ddarpariaeth a osodwyd o'r neilltu yn y gyllideb er mwyn gwneud hynny.**
- **Diolch i bawb oedd yn gysylltiedig â'r adroddiad - gwaith heriol iawn wedi ei gyflwyno mewn modd dealladwy**

**9. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU**

Croesawyd Alan Hughes a Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) i'r cyfarfod

Nodwyd bod yr adroddiadau 'Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol' (Adroddiad Cenedlaethol ac Adroddiad Lleol - Cyngor Gwynedd) yn ymateb i ddatganiad 'bod sefyllfa ariannol llywodraeth leol yn anghyliadwy dros y tymor canolig oni chymerir camau gweithredu'. Dros Haf 2024, bu i Archwilio Cymru fwrw golwg ar gynaliadwyedd pob Cyngor yng Nghymru gan ganolbwyntio ar y strategaethau i ategu cynaliadwyedd ariannol hirdymor cynghorau, ystyried dealltwriaeth Cynghorau am eu sefyllfa ariannol ac edrych ar drefniadau adrodd Cynghorau i ategu goruchwyliaeth reolaidd ar eu cynaliadwyedd ariannol.

Eglurwyd bod yr adroddiad cenedlaethol yn darparu peth cyd-destun ar gyfer yr heriau ariannol a wynebir gan Gynghorau ac yn crynhoi canfyddiadau allweddol y gwaith yn genedlaethol ac yn lleol.

Wrth gyfeirio at brif negeseuon yr adroddiad lleol nodwyd cynnydd sylweddol yn nifer o Adrannau Cyngor Gwynedd sydd yn gorwario, ac er bod y Cyngor wedi dechrau datblygu dull strategol i sefydlu trefniadau i asesu effaith gwasanaethau ar drigolion y Sir, nid yw wedi gweithredu strategaeth hirdymor i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Ategwyd bod

defnydd cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn sylweddol a bod angen ystyried os yw'r sefyllfa sefydlog gyda chyllidebau dan bwysau.

Tynnwyd sylw at yr argymhelliad i fynd i'r afael a'r weithredu strategaeth ariannol hirdymor ac at ffurflen ymateb y Cyngor i'r adolygiad.

Nododd y Pennaeth Cyllid, bod y Cyngor yn ystyried y modd gorau o wario o fewn y gyllideb drwy geisio sicrhau parhad gwasanaeth i drigolion y Sir. Cyfeiriwyd at amcanion Cynllun Llechen Lân fel enghraifft, sydd yn gynllun tymor hir ac yn fodd o ddarganfod beth yw gwir gost ac ymarferoldeb darparu gwasanaethau. Derbyniwyd bod bwriad ystyried ymarferiadau tebyg, ymateb i gyfleoedd a gwella effeithlonrwydd. Ategodd, er bod cronfeydd ariannol y Cyngor yn edrych yn iach, derbyniodd efallai nad oedd golwg digon strategol ar eu defnydd gyda gwaith adolygu angen ei wneud i ystyried os yw'r cronfeydd yn ymateb i'r galw ynteu yn bodoli oherwydd materion hanesyddol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chyflawni gwasanaethau statudol gyda llwyddiant / methiant o fewn y gyllideb yn cael ei amlygu drwy ffigyrau, ac na fyddai llwyddiant / methiant cyflawni cyfrifoldebau statudol yn dod i'r amlwg hyd nes bydd y gwasanaeth yn wynebu her o fethu cyflawni, a fyddai modd rhestru holl gyfrifoldebau statudol y Cyngor wrth osod cyllideb, nodwyd bod y gyllideb yn cael ei gosod drwy flaenoriaethu'r hyn sydd angen ei wario ar ddarparu gwasanaethau statudol. Ategwyd, yng nghyd-destun yr her o fethu cyflawni, bydd adroddiadau perfformiad pob adran yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol ac y byddai modd arddangos bod y gofynion statudol yn cael eu cyfarch yn yr adroddiad hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â dyddiad cwblhau camau gweithredu i weithredu strategaeth ariannol hirdymor ac os yw Mawrth 2025 yn ddyddiad rhesymol, nodwyd, yn dilyn cefnogaeth a chanllawiau gan CIPFA, bydd gwaith o ddechrau llunio rhaglen waith ar gyfer y strategaeth yn dechrau canol Mawrth 2025, gyda bwriad o gyflwyno rhaglen waith manwl, Mawrth 2026.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod angen ychydig mwy o fanylder yn y cynllun gweithredu
- Awgrym i dreialu cyllideb di-sylfaen (zero based budget) i drawsnewid rhai gwasanaethau
- Bod yr adroddiadau yn ddefnyddiol ac yn edrych ar y darlun mawr
- Bod rhai Cynghorau mewn sefyllfa well na'i gilydd i ddygymod â'r heriau ariannol
- Bod angen cywiro cyfieithiadau enwau llefydd ar y mapiau sydd yn yr adroddiad cenedlaethol
- Derbyn sefyllfa cronfeydd wrth gefn y Cyngor, ond at bwrpas penodol ac nid i wireddu arbedion

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad Cenedlaethol a Lleol**
- **Derbyn ymateb y Cyngor i'r argymhellion**

Nodyn:

- Yn dilyn derbyn cefnogaeth a chanllawiau CIPFA, Rhaglen Waith yr ymateb i'w chyflwyno i'r Pwyllgor erbyn Mawrth 2026
- Adroddiadau Perfformiad fydd yn cael eu cyflwyno i Bwyllgorau Craffu i arddangos bod y gofynion statudol yn cael eu cyfarch
- Cywiro cyfieithiadau enwau llefydd yn yr adroddiadau

## 10. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO ION 2026

Cyflwynwyd blaen raglen o eitemau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor hyd Ionawr 2026

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn y Rhaglen waith ar gyfer Chwefror 2025 – Ionawr 2026**

Cais i ychwanegu:

- Rhaglen Datblygu'r Pwyllgor
- Blaenraglen Archwilio Mewnol
- Blaenoriaethau Archwiliadau – dilyniant i argymhellion
- Mwy o wybodaeth am Ffordd Gwynedd
- Dilyniant i wybodaeth ar sefyllfa ariannol Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd
- Angen cynnal sgwrs rhwng yr adrannau perthnasol i drafod effaith gwrthod cynlluniau tai fforddiadwy ar ysgolion Gwynedd i'r dyfodol

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 13:10

______________________________

**CADEIRYDD**